



▶ SIOE GERDD ANNIE



▶ LLANGRANNOG



▶ CLOTHES SHOW LIVE

@yggllangynwyd1

○ GAEAF | ○ 2015



Llais y Llan

ANNIE

Wrth i 7 o'r gloch agosáu ar y dydd Mawrth roedd cyffro enfawr yng nghefn y llwyfan wrth i gast Annie fynd trwy eu paratodau olaf cyn y sioe agoriadol. Gyda'r propiau yn eu lle a'r offerynnau wedi eu tiwnio, llenwodd Theatr Sony â swm. Swm canu ac actio a chyffro. Ar ôl i'r holl gast ymuno yn y gân, 'Bywyd Caled' roedd popeth yn teimlo fel breuddwyd, hyd yn oed efo'r 'stafelloedd newid orlawn! Erbyn yr ail act roedd pawb wedi setlo ac yn awyddus i fod ar y llwyfan. Ar ôl i'r llenni gau gwnaeth reality'r sefyllfa daro pawb fel ton, a chyn hir roedd pawb yn sgrechian ac yn chwerthin, er i'r athrawon geisio ein tawelu. Dydd Mercher roedd gennym ddau berfformiad i goroni'r deuddydd o berfformio. Roedd y theatr yn llawn cyffro wrth i blant yr ysgolion cynradd ddilyn stori Annie (Seren Morse) a'r holl gymeriadau ym mherfformiad y prynhawn. Yna, roedd angen ail-wisgo rhyw dair awr wedyn ar gyfer y sioe olaf. Roedd y deuddydd

Llangrannog

Gadawodd dau fws yr ysgol ar fore dydd Mawrth yn llawn disgyblion siaradus a chyffrous. Bu llawer o ganu a chwerthin ar y ffordd. Wrth gyrraedd y gwerysll daeth pawb o hyd i'w hystafelloedd, gollwng eu bagiau ac ymgynnull yn y neuadd. Trefnodd yr athrawon y disgyblion i'w grwpiau ac yn ffodus roeddent wedi cadw ffrindiau gyda'i gilydd, felly roedd pawb yn hapus.



Blwyddyn 7 ar draeth Llangrannog

Un o'r gweithgareddau cyntaf oedd sgïo. Y peth anoddaf oedd ceisio neidio wrth sgïo i lawr y llethr - dwi'n meddwl bod pawb wedi cwmpo! Gwibgartio oedd nesaf ac roedd hwn yn boblogaidd gyda phawb. Cyn swper wedyn, aethon ni allan i'r goedwig i adeiladu lloches o



Gan Holly Thompson

Cast 'ANNIE'

wedi hedfan wrth i ni fwynhau perfformio ar y llwyfan. Wrth i'r llenni gau am y tro olaf, teimlon ni'n syth bod yr holl waith caled wedi

ddarnau o bren a choed, rhaffau a chynfas. Nid ein tîm ni a enillodd ond cawsom hwyl yn gwneud gweithgaredd gwahanol. Ar ôl swper, aethon ni am dro yn y tywyllwch. Dywedodd dyn o'r gwerysll fod yna nifer o geiliogod gwyllt yn byw yn y goedwig gyfagos a gallent ymosod arnoch chi gyda'u hewinedd, ond doedd neb yn hollol sicr os oedd y dyn yn dweud y gwir neu beidio!

Aethon ni i'n hystafelloedd i "gysgu" ond roedd

tal ar ei ganfed. Ar ran yr holl gast, hoffwn i ddiolch i bob aelod o'r staff a gynorthwyodd i wneud y sioe yn bosib. Diolch yn fawr!

teimlad o fynd mor gyflym yn wych a theimlais ychydig allan o reolaeth. Gyda'r nos roedd aelodau'r Chweched wedi paratoi cwis ar ein cyfer. Mwynhaodd pawb y cwis ac enillodd tîm o'r enw "Cymru am byth". Enillon nhw losin ac roedd pawb arall yn genfigennus.

Ar ôl noson arall o "gwsg" cododd pawb yn barod am weithgareddau'r dydd, sef cerdded i'r traeth ble gafodd un o olygfeydd "Harry Potter" ei ffilmio mewn ogof. Roedd Mr Tudur wedi trefnu bod bob un ohonom yn sefyll mewn lle penodol ar y traeth i sillafu'r geiriau "#TÎM LLAN" ac roedd Mr Barrow i fyny ar y creigiau yn tynnu llun. Gweithgareddau eraill y diwrnod oedd cyfeiriannu a thrip i'r siop ac ar ôl swper roedd prif ddigwyddiad y daith, sef y disgo! Cawsom gymaint o hwyl yn dawnsio gyda'n ffrindiau ac yn chwerthin a chymdeithasu.

Daeth y diwrnod olaf yn rhy gyflym ond nid oedd angen mynd adref cyn cael ychydig mwy o hwyl wrth wneud saethyddiaeth, nofio a'r cwads. Y bws amdani wedyn ar ôl i bawb lanhau eu hystafelloedd a sicrhau nad oedd unrhyw un wedi gadael unrhyw beth ar ôl!

Roedd pawb yn flinedig wrth gyrraedd yr ysgol ond roedd yn brofiad gwych i dreulio cymaint o amser gyda fy ffrindiau yn siarad Cymraeg.

Diolch i'r athrawon, y Chweched a staff Llangrannog am ein hannog i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd ac am sicrhau bod pawb wedi mwynhau.

Gan Cerys Richards

NEWYDDION Y 6ed

Ysgoloriaethau

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi clywed bod nifer o'n cyn-fyfyrywyr wedi derbyn ysgoloriaeth yn sgil eu canlyniadau ardderchog yn yr arholiadau Lefel A. Derbyniodd:

- Cai Bradley, Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Prifysgol Abertawe
- Benjamin Isaac, Ysgoloriaeth y Pennaeth, Prifysgol y Royal Holloway, Llundain
- Rhydian Jenkins, Ysgoloriaeth Meddyliau Creadigol, Prifysgol Caerdydd

Mae hyn yn ychwanegol at lwyddiannau Siôn Lewis a enillodd un o brif ysgoloriaethau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i astudio ym Mhrifysgol Met Caerdydd; derbyniodd Elin Crockett Ysgoloriaeth Cymhellant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae hi bellach yn astudio Meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd; yn ogystal â Lowri Foster Davies a dderbyniodd Ysgoloriaeth Gwalia Prifysgol Caergrawnt a gaiff ei gyflwyno i fyfyrwyr rhagorol o ysgol yng Nghymru. Mae Lowri bellach yn astudio Meddygaeth yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt. Llongyfarchiadau mawr iawn i bob un ohonynt.

Les Miserables

Ymddangosodd bedwar aelod o'r Chweched Dosbarth (Ffion Morgan, Ffion Margetson, Joseph Cornish a Lewis Murray) yng nghynhyrchiad Theatr Genedlaethol yr Urdd o *Les Miserables* yng Nghanolfan y Mileniwm dros wyliu hanner tymor mis Hydref. Fel rhan o'r paratodau cawsant y cyfle i berfformio yn natliadau 30 mlynedd y cynhyrchiad yn Theatr y Frenhines yn ardal enwog y West end yn Llundain gydag aelodau o gast gwreiddiol a phresennol y sioe. Swynwyd pawb gan eu perfformiadau proffesiynol yn Llundain ac yng Nghaerdydd.

Taith yr Urdd i Batagonia

Dros wyliu hanner tymor ym mis Hydref aeth Emily Bruce a Carys Parry o flwyddyn 13, ynghyd â 23 aelod arall yr Urdd o bob rhan o Gymru i Batagonia. Trefnir y daith ar y cyd rhwng yr Urdd a Mentrau Iaith Cymru er mwyn hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y Wladfa. Ymwelwyd ag ysgolion meithrin a chynradd a Choleg Camwy a chynhaliwyd gweithdai radio gyda Menter Iaith Patagonia. Roedd y ddwy wedi'u dewis y llynedd ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r ddwy wedi bod yn brysur yn casglu arian i fynd ar y daith.

Lleoliadau Nuffield Research

Yn ystod gwyliau'r haf mynychodd dau ddisgybl o flwyddyn 13 ysgol haf yn Adran Seicoleg, Prifysgol Abertawe o dan nawdd y Nuffield Foundation. Ar ddiwedd y cyfnod roedd rhaid iddynt ysgrifennu adroddiad am eu gwaith a'i arddangos mewn noson wobrwyo yn Techniquet. Yn sgil ei gwaith, derbyniodd Shannon Treadwell wobwr Aur CREST a ddyfernir gan Gymdeithas Wyddoniaeth Prydain i fyfyrwr sydd wedi llwyddo i gyflawni gwaith ymchwil arwyddocaol mewn maes gwyddonol neu dechnolegol.

Band Chwyth Cenedlaethol Cymru

Llongyfarchiadau mawr iawn i Nathan Isaac, blwyddyn 13 ar ennill lle ym Mand Chwyth Cenedlaethol Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol.



Nathan Isaac

Youth Speaks

Ar y 25ain o Dachwedd, cymerodd 6 disgybl ran yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus y Rotary a elwir yn *Youth Speaks*. Ar y tîm iau roedd Mari Lewis, y prif siaradwr, Olivia Sutton, y cadeirydd ac Owain Jenkins oedd yn cloi'r drafodaeth. Y pwnc dan sylw oedd 'How should we celebrate Christmas?' Ar y tîm hŷn roedd Shannon Treadwell, y prif siaradwr, Sam Williams, y cadeirydd a Sean Thomas yn cloi'r drafodaeth. Y pwnc oedd 'The use of the whip in horse racing.' Llwyddodd y tîm iau i gyrraedd y rownd nesaf a gynhelir ym mis Chwefror. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Dyweddodd Mari Lewis "Roedd y profiad o siarad yn gyhoeddus yn un da iawn. Roedd trafodaeth y tîm hŷn yn gyffrous iawn ond yn anffodus, fe gollon nhw a bydd Maesteg yn cystadlu yn y rownd nesaf. Trafododd tîm Maesteg y modd rydych chi wastad yn derbyn rhywbeth wedi i chi roi rhywbeth. Dyma brofiad arbennig ac rydw i'n edrych ymlaen at y rownd nesaf!"

Gan Mari Lewis

Clothes Show

Dechreuodd y diwrnod yn gynnar iawn yn y bore. Pan gyrhaeddodd yr NEC roedd gennym tua 3 awr i fynd i siopa cyn gweld y sioe ffasiwn. Roedd y lle'n enfawr! Hefyd roedd yna amrywiaeth o stondinau fel 'Barry M', 'Models Own', 'Rimmel London' a llawer mwy o stondinau na chefais gyfle i'w gweld. Pan gyrhaeddodd i weld y sioe roedd yna gystadleuaeth ac i ennill roedd rhaid i chi sgrechian uchaf. Roedd perfformiad gan grŵp dawns ar ddechrau pob math o wisg a gyflwynwyd. Roedd y gwisgoedd yn wych ac yn hynod o greadigol. Yn bendant ni allwch chi wisgo llawer o'r dillad a welwyd yn y sioe ym Mhen-y-bont ond heb os, cawson ni brofiad anhygoe!!! Dewch yn llu yn 2016!!

Gan Ffion Wilson

DYDDIADAU PWYSIG TYMOR Y GWANWYN

- 4/1/16 – DIWRNOD HMS
- 7/1/16 – NOSON RHIENI BL.9
- 28/1/16 – NOSON AGORED CA4
- 4/2/16 – NOSON RHIENI CA5
- 15-19/2/16 – HANNER TYMOR
- 3/3/16 – NOSON RHIENI BL.10
- 17/3/16 – NOSON RHIENI BL.7
- 25/3 - 1/4/16 – GWYLIU'R PASG